| | |
|---|---|
| **ENW'R PWYLLGOR CRAFFU** | **CYMUNEDAU** |
| **DYDDIAD Y CYFARFOD** | **4 Mawrth 2014** |
| **TEITL** | **Matrics Cludiant Cyhoeddus** |
| **AWDUR** | **Aled Davies, Pennaeth Adran Rheoleiddio** |
| **AELOD CABINET** | **Cyng. W. Gareth Roberts** |
| | |
| **PWRPAS** | **I'r Pwyllgor gael ystyried priodoldeb y matrics cludiant cyhoeddus.** |

**Cefndir**

1. Dros y ddwy flynedd diwethaf mae Uned Cludiant Integredig y Cyngor wedi ymgymryd â rhaglen heriol o ail dendro holl wasanaethau Cludiant Cyhoeddus ac Addysg y Cyngor.

2. Er bod natur y maes yn golygu bod y sefyllfa contractau cludiant a osodir gan y Cyngor yn gorfod cael eu haddasu yn gyson, credir bod y Cyngor bellach mewn sefyllfa o gymryd gorolwg traws sirol o'r rhwydwaith cludiant sydd yn derbyn sybsidi gan y Cyngor er sefydlu os ceir gwerth am arian am y gwasanaethau a'u bod yn cyfarfod ac anghenion cludiant sylfaenol cymunedau y Sir.

3. Rhai blynyddoedd yn ôl datblygwyd matrics gan y Grŵp Tasg oedd yn gweithio ar ran y Pwyllgor Craffu Amgylchedd er ceisio sefydlu sail resymegol ar gyfer cymharu y gwasanaethau oedd yn derbyn cymhorthdal. Cafodd y matrics ei drafod a derbyn sêl bendith Pwyllgor yr Amgylchedd.

4. Er i'r matrics gael ei ddatblygu ni ddefnyddiwyd ef fel arf i ddylanwadu ar fuddsoddiad y Cyngor yn y gwasanaethau cludiant ac yn fuan wedyn symudwyd at y gwaith ail dendro. Penderfynwyd mai yr ail dendro oedd y flaenoriaeth ac y dylid gohirio y gwaith o asesu y rhwydwaith sirol hyd nes y byddai y gwaith hwnnw wedi ei gwblhau.

5. Gyda'r ail dendro wedi ei gwblhau mae sicrhau gwerth am arian, yn enwedig yn y cyfnod ariannol heriol presennol yn flaenoriaeth uchel. Fodd bynnag, gan fod sawl blwyddyn wedi mynd heibio ers i'r matrics gael ei ddatblygu credir ei bod yn briodol i'r Pwyllgor Craffu ail ymweld ag o i weld os yw yn briodol ar gyfer cynorthwyo'r broses. Er bod egwyddorion a strwythur

sylfaenol y matrics yn gadarn, ystyrir y gallai y Pwyllgor fod eisiau addasu agweddau ohono cyn iddo gael ei ddefnyddio yn enwedig o ran pwysau a roddir ar y ffactorau gwahanol.

6. Prif ffactorau'r matrics presennol yw:

   i. Cost fesul teithiwr;
   ii. Y llwybr/ardal a wasanaethir
   iii. Niferoedd teithwyr;
   iv. Dewisiadau teithio eraill;
   v. Math o wasanaeth - dydd/nos/penwythnos; a
   vi. Mynediad i wasanaethau.

   Efallai y bydd y Pwyllgor eisiau ystyried priodoldeb y ffactorau yma ynghyd â’r pwysau gwahanol a roir iddynt o fewn y matrics.

7. Amgaeir copi o’r matrics gyda’r adroddiad hwn. Bydd swyddogion yr Adran Rheoleiddio yn rhoi cyflwyniad ar y matrics ar ddechrau'r eitem yn y Pwyllgor ac yn amlinellu rhai o’r materion sydd angen ystyriaeth neu gadarnhad o’r priodoldeb gan y Pwyllgor.

8. Bydd unrhyw addasiadau i’r matrics a gynigir gan y Pwyllgor yn cael eu cyflwyno i sylw yr Aelod Cabinet a fydd yn penderfynu ar y matrics terfynol ac os yw am ei ddefnyddio fel arf i ddatblygu opsiynau ar gyfer siapio dyfodol y gwasanaethau cludiant a ddarparir yng Ngwynedd.